



Partneriaeth Banc Cydweithredol GIG Cymru Cwestiynau Cyffredin

Cliciwch i neidio at gwestiwn

- 1 Beth yw'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol?
- 2 Beth yw'r 'Peilot'?
- 3 Sut mae ymuno â'r Banc Cydweithredol?
- 4 Beth yw fy Manc/Bwrdd Iechyd 'cartref/lleol'?
- 5 Pwy yw fy nghyflogwr ar gyfer sifftiau Banc Cydweithredol?
- 6 Pryd bydd y Bartneriaeth Banc Cydweithredol ar gael ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd?
- 7 Sut ydw i'n archebu sifftiau Banc Cydweithredol / cwmwl?
- 8 Faint fyddaf yn cael fy nhalu?
- 9 A yw'n iawn i mi gyfuno fy rôl tâl misol a chyflog wythnosol?
- 10 Pryd bydda i'n cael fy nhalu?
- 11 A yw bellach yn bosibl talu goramser yn wythnosol?
- 12 Ble mae fy slip cyflog?
- 13 Beth am lwfans gwyliau?
- 14 Beth am fy mhensiwn?
- 15 A allaf newid manylion fy nghyfrif banc?
- 16 Beth os bydd angen i mi ganslo Sifft Banc Cydweithredol sydd eisoes wedi'i harchebu?
- 17 A oes angen i mi optio allan o'r cyfyngiad amser gwaith?
- 18 Pa sifftiau y byddaf yn gallu eu gweld a'u harchebu?
- 19 Pwy fydd yn cael dewis y sifftiau gyntaf?
- 20 Beth am waith asiantaeth a'r Banc Cydweithredol?
- 21 Beth ddylwn i ei wneud ar fy sifft gyntaf mewn ward newydd mewn Bwrdd Iechyd gwahanol?
- 22 A oes angen ID neu iwniform staff newydd arnaf?
- 23 A fydd yn rhaid i mi gwblhau hyfforddiant ddwywaith?
- 24 A fydd angen dwy set o wiriadau cyflogaeth arnaf?
- 25 Gyda phwy y dylwn i gysylltu os oes gen i broblem wrth weithio sifft trwy'r Banc Cydweithredol?
- 26 A allaf gael rhagor o wybodaeth ynghylch gweithio sifftiau trwy'r banc?
- 27 Gyda phwy y dylwn i gysylltu os oes gen i broblem gydag archebu sifftiau trwy'r ap ffôn clyfar?

1 Beth yw'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol?

Mae'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol yn drefniant rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru lle mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cynnal Banc Staff i ddarparu staff nyrsio mewn ymateb i brinder staff dros dro neu dymor byr.

Yn ogystal â gwella gofal i gleifion, bydd y trefniant arfaethedig yn dod â buddion ychwanegol i staff nyrsio yn y banc. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaeth archebu sifftiau yn electronig trwy ap ffôn clyfar a thalu'n wythnosol. Mae sifftiau Banc Cydweithredol yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd lle mae'r sifft yn digwydd.

Mae'r model yn esblygu o'r Swyddfa Banc 'leol' yn recriwtio gweithwyr a bydd yn hwyluso rhannu gweithwyr banc ledled GIG Cymru a bydd PCGC yn lletya'r staff ac yn delio â'u cyflogaeth ar draws GIG Cymru.

2 Beth yw'r 'Peilot'?

Mae peilot cychwynnol y Banc Cydweithredol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA). Bydd Cam 1 yn cychwyn ym mis Ebrill 2020 trwy recriwtio Nyrsys Cofrestredig, a dilynir hyn yn gyflym trwy recriwtio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill ac yna ehangu i gynnwys Byrddau Iechyd eraill.

3 Sut mae ymuno â'r Banc Cydweithredol?

1. Sicrhewch eich bod wedi cofrestru (gydag aseiniad gweithredol) gyda'r Banc yng Nghwm Taf Morgannwg neu Fae Abertawe.
2. Gofynnwch i'ch Swyddfa Banc leol eich cofrestru ar y Bartneriaeth Banc Cydweithredol a derbyn 'nodyn croeso' a thaflen wybodaeth.
3. Ar ôl 10 diwrnod byddwch chi'n derbyn; cadarnhad o'ch cofrestriad, cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho Me-App (i weld ac archebu sifftiau) a'ch Manylion Mewngofnodi ESR.

4 Beth yw fy Manc/Bwrdd Iechyd 'cartref/lleol'?

Y Banc 'cartref' neu'r Bwrdd Iechyd 'cartref' yw lle mae'r gweithiwr yn dal ei aseiniad gwreiddiol (parhaol neu fanc) neu lle mae'n gweithio'r rhan fwyaf o'i sifftiau. Mae'r banc 'cartref' yn gyfrifol am weinyddu gweithwyr a darparu gwisg a hyfforddiant ac ati.

5 Pwy yw fy nghyflogwr ar gyfer sifftiau Banc Cydweithredol?

Byddwch yn weithiwr yn hytrach na chyflogai. Fe'ch cyflogir trwy'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol sy'n rhan o PCGC sy'n cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

6 Pryd bydd y Bartneriaeth Banc Cydweithredol ar gael ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd?


Ar ôl cyflwyno'r peilot yn llwyddiannus ar gyfer Nyrsys Cofrestredig, byddwn yn edrych i ehangu yn haf 2020 i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

7 Sut ydw i'n archebu sifftiau Banc Cydweithredol / cwmwl?

Dilynwch y canllaw isod sy'n darparu cyfarwyddiadau gam wrth gam ar sut i gael mynediad at 'sifftiau cwmwl' ar eich ffôn clyfar.



Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar gael ar gais gan Collab.Bank@wales.nhs.uk

Sylwch, i dderbyn tâl wythnosol am sifftiau, rhaid i chi archebu'r sifftiau Cwmwl. Mae'r sifftiau hyn wedi'u marcio â'r symbol canlynol. 

Os nad oes gennych ffôn clyfar, yna gallwch weld ac archebu ar y Banc Cydweithredol trwy Me Web - me.allocate-cloud.co.uk/Web/. Bydd y wefan hon yn gweithio yn yr un ffordd ag y mae'r ap symudol yn ei wneud.

Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael gan Swyddfa Banc eich Bwrdd Iechyd Lleol.

8 Faint fyddaf yn cael fy nhalu?

Fe'ch telir ar y gyfradd y mae'r sifft yn cael ei hysbysebu ar y rhestr ddyletswyddau sy'n cyd-fynd â'ch pwynt cynyddran cyfredol.

9 A yw'n iawn i mi gyfuno fy rôl tâl misol a chyflog wythnosol?

Dyluniwyd y Bartneriaeth Banc Cydweithredol i ychwanegu tâl wythnosol at eich rôl banc parhaol neu bresennol. Bydd gwasanaethau cyflogres PCGC yn sicrhau bod yr holl dreth, pensiynau a didyniadau yn cael eu cyfrif yn gywir.

10 Pryd bydda i'n cael fy nhalu?

Telir sifftiau cwmwl a gwblhawyd erbyn dydd Sadwrn y dydd Gwener canlynol.

11 A yw bellach yn bosibl talu goramser yn wythnosol?

Dim ond 'sifftiau cwmwl' sy'n cael eu talu bob wythnos.

12 Ble mae fy slip cyflog?

Byddwch yn derbyn slip cyflog ar-lein ar wahân trwy hunanwasanaeth ESR ar gyfer eich sifftiau Banc Cydweithredol. Fe'ch telir trwy Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

13 Beth am lwfans gwyliau?

Bydd eich gwyliau blynyddol yn cael eu cyfrifo yn rheolaidd yn unol â'r hawl lleiaf statudol. Yr hawl statudol i wyliau blynyddol o dan y Rheoliadau Amser Gwaith yw 5.6 wythnos ar hyn o bryd.

Bydd yr hawl i wyliau blynyddol yn cronni wrth i'r oriau gael eu gweithio. Mae'r hawl i 5.6 wythnos o wyliau yn cyfateb i 12.07 y cant o'r oriau a weithir dros flwyddyn. Er enghraifft, mae gweithio 10 awr yn rhoi hawl i 72.6 munud o wyliau â thâl ($12.07/100 \times 10 = 1.21$ awr = 72.63 munud).

14 Beth am fy mhensiwn?

Mae tâl y Bartneriaeth Banc Cydweithredol yn bensiynadwy.

Dim ond os y byddwch yn gymwys y cewch ymuno â Chynllun Pensiwn y GIG, ond os nad ydych yn gymwys fe gewch eich cofrestru â darparwr pensiwn enwebedig y Llywodraeth, sef Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol y Llywodraeth (cynllun NEST).

Os ydych chi'n weithiwr llawn amser sy'n derbyn pensiwn mewn Bwrdd Iechyd yng Nghymru a'ch bod yn gweithio trwy Bartneriaeth Banc Cydweithredol, cewch eich eithrio yn awtomatig o Gynllun Pensiwn y GIG ond cewch eich cofrestru mewn cynllun NEST os yw'ch enillion ar y Bartneriaeth Banc Cydweithredol uwchlaw'r trothwy perthnasol.

15 A allaf newid manylion fy nghyfrif banc?

Byddwn yn defnyddio manylion eich cyfrif banc presennol ond gallwch eu newid trwy Hunan Wasanaeth ESR.

16 Beth os bydd angen i mi ganslo Sifft Banc Cydweithredol sydd eisoes wedi'i harchebu?

Cysylltwch â Swyddfa Banc y Bwrdd Iechyd lle mae disgwyl i'r sifft ddigwydd cyn gynted â phosibl. Adolygwch eich Telerau Cyflogaeth ar gyfer gweithwyr banc y Bartneriaeth Banc Cydweithredol.

17 A oes angen i mi optio allan o'r cyfyngiad amser gwaith?

Yn unol â'r Rheoliadau Amser Gwaith, ni ddisgwylir i chi weithio mwy na chyfanswm o 48 awr yr wythnos. Efallai y bydd eithriadau lle gallwch ddewis gweithio mwy na'r oriau hyn cyhyd â bod gofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni a'ch bod wedi cwblhau a chyflwyno ffurflen optio allan yn Atodiad 1 yn y Telerau Cyflogaeth i'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol.

18 Pa sifftiau y byddaf yn gallu eu gweld a'u harchebu?

Bydd gweithwyr banc cydweithredol yn gallu gweld ac archebu sifftiau gwag y maent yn gymwys ar eu cyfer mewn sawl Bwrdd Iechyd (sy'n rhan o'r Bartneriaeth Banc cydweithredol) trwy'r Me-App.

19 Pwy fydd yn cael dewis y sifftiau gyntaf?

Mae Byrddau Iechyd yn rhyddhau sifftiau ar ffurf rhaeadru fel a ganlyn: Banc lleol 1 wythnos, banc staff cydweithredol 3 wythnos ac yna yn olaf allan i asiantaeth.

20 Beth am waith asiantaeth a'r Banc Cydweithredol?

Ni fydd gweithwyr banc cydweithredol yn gallu gweithio sifftiau asiantaeth mewn Byrddau Iechyd sy'n ffurfio rhan o'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol.

21 Beth ddylwn i ei wneud ar fy sifft gyntaf mewn ward newydd mewn Bwrdd Iechyd gwahanol?

Rhowch wybod i'r ward mai hon yw eich sifft gyntaf yn y Bwrdd Iechyd hwn a gofynnwch am sesiwn ymsefydlu.

22 A oes angen ID neu iwniform staff newydd arnaf?

Defnyddiwch eich gwisg a'ch bathodyn adnabod presennol.

23 A fydd yn rhaid i mi gwblhau hyfforddiant ddwywaith?

Na fydd, dim ond unwaith y bydd angen i chi gwblhau hyfforddiant yn eich Bwrdd Iechyd 'cartref'.

24 A fydd angen dwy set o wiriadau cyflogaeth arnaf?

Pan fyddwch chi'n cofrestru ar y Banc Cydweithredol, bydd Gwasanaethau Recriwtio PCGC yn gwirio'ch cofnodion ac yn darparu llythyr cynnig Amodol i chi. Os yw Gwasanaethau Recriwtio PCGC yn nodi bod dogfennau ar goll neu heb fod yn gyfoes, byddant yn gofyn ichi gyflwyno dogfen ddilys.

Byddwch yn gallu dechrau gweithio gyda gwiriadau anghyflawn ond bydd gennych hyd at 90 diwrnod i ddarparu'r dystiolaeth neu byddwch yn wynebu'r risg o gael eich tynnu o'r Banc Cydweithredol.

25 Gyda phwy y dylwn i gysylltu os oes gen i broblem wrth weithio sifft trwy'r Banc Cydweithredol?

Cysylltwch â Swyddfa Banc y Bwrdd Iechyd lle mae'r broblem yn codi neu Collab.Bank@wales.nhs.uk

26 A allaf gael rhagor o wybodaeth ynghylch gweithio sifftiau trwy'r banc?

Cysylltwch â Swyddfa Banc eich Bwrdd Iechyd lleol gydag unrhyw ymholiadau.

27 Gyda phwy y dylwn i gysylltu os oes gen i broblem gydag archebu sifftiau trwy'r ap ffôn clyfar?

Cysylltwch â Swyddfa Banc eich Bwrdd Iechyd 'cartref'.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalen we'r Banc Cydweithredol:

pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/datrysiadau-gweithlu-digidol/partneriaeth-banc-cydweithredol-gig-cymru/

Fel arall, cysylltwch â swyddfa banc eich Bwrdd Iechyd lleol:

Cwm Taf Morgannwg

CTT_staffbank@wales.nhs.uk

01685 726900

Bae Abertawe:

ABM.NurseBank@wales.nhs.uk

01639 684401

NWSSP

Collab.Bank@wales.nhs.uk